S4C

## Bwrdd S4C

Cyfarfod 486
10:00, 16 Gorffennaf 2026
Yr Egin, Caerfyrddin

# CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol – hyd at eitem 7
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol – yn rhithiol ar gyfer eitemau 2 i 6

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Guto Rhun [GRh], Comisiynydd Cynulleidfaoedd Ifanc (ar gyfer eitem 3)
- Siân Lewis [SL], Prif Weithredwr yr Urdd (ar gyfer eitem 7)
- Llio Maddocks [LlM], Cyfarwyddwr Celfyddydau'r Urdd (ar gyfer eitem 7)

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, ac Aelodau eraill y Bwrdd**<br><br>Rhannwyd trosolwg o weithgareddau a chyfarfodydd diweddar DE gyda rhanddeiliaid allweddol.<br><br>Cadarnhawyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi dau aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd, ac y byddai cyhoeddiad wedi i'r unigolion dderbyn y penodiadau'n ffurfiol.<br><br>Derbyniwyd diweddariad gan GE ar y canlynol: | |

Rol y Prif Swyddog Technegol

Yn dilyn proses broses recriwtio aflwyddiannus ar gyfer rôl y Prif Swyddog Technegol ym mis Gorffennaf 2025, fel mesur interim, penodwyd unigolyn ar secondiad o'r BBC yn Bennaeth Gwasanaethau Technegol. Roedd yr unigolyn hwnnw bellach wedi dychwelyd i'r BBC.

Adroddodd GE ei fod yn bellach yn ffyddiog bod ymgeisydd addas wedi'i adnabod ar gyfer swyddogaeth y Prif Swyddog Technegol a bod trafodaethau yn parhau gyda'r person hwnnw.

Adolygiad yr EBU

Adroddwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r EBU, ac o ganlyniad mae'r EBU yn mynd i gynnal adolygiad o strwythurau a phrosesau S4C er mwyn cefnogi'r gwaith o wireddu'r strategaeth gorfforaetholyn ystod misoedd Medi a Hydref. Y bwriad fydd cyflwyno'r allbwn a'r canfyddiadau i'r Bwrdd cyn gynted â phosibl wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.

**Penderfyniad: Rhannu copi o'r sgôp a gynigiwyd gan yr EBU gydag aelodau'r Bwrdd.**

Gwerth ariannol Cynllun Rhaglenni'r BBC

Roedd y Prif Weithredwr wedi cael trafodaeth gyda Rhuanedd Richards o'r BBC rai wythnosau ynghynt ynghylch yr heriau ariannol a'r toriadau sy'n wynebu'r BBC. Nodwyd, fel rhan o'r bartneriaeth strategol rhwng y ddau sefydliad, fod y BBC yn darparu'r Cynllun Rhaglenni, sy'n cyfateb i 10 awr o gynnwys yr wythnos, er y cydnabuwyd bod modd newid natur y ddarpariaeth honno yn sgil darpariaethau Deddf y Cyfryngau 2024.

**Penderfyniad: I gefnogi parhad yn negodi gyda'r BBC ar sail y trywydd amlygwyd yn ystod y drafodaeth.**

Adolygiad Ffi'r Drwydded

Nodwyd fod Matt Brittin, wrth roi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Senedd y DU'r wythnos flaenorol, wedi mynegi pryderon clir ynghylch cynaliadwyedd y model ffi drwydded bresennol, gan ei ddisgrifio fel un sydd wedi torri, wedi cyrraedd ei derfynau ac nad yw bellach yn addas i'r diben. Sylwyd bod ei sylwadau'n fwy uniongyrchol a diamwys na'r rhai a fynegwyd yn flaenorol gan ei ragflaenydd Tim Davie. Trafodwyd hefyd barn Matt Brittin na all Llywodraeth y DU barhau i ddatgan ei chefnogaeth i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth ddibynnu ar y model ariannu presennol, gan awgrymu bod angen ystyried trefniadau amgen er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y sector yn y tymor hwy.

Nodwyd bod y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, hyd yma ac yn unol â'r safbwynt a gytunwyd gyda'r Bwrdd, wedi bod yn pwysleisio'n gyhoeddus mai'r flaenoriaeth i S4C yw sicrhau lefel ddigonol o ariannu i gyflawni ei gylch gwaith, ac mai mater i wleidyddion a llunwyr polisi yw penderfynu ar y mecanwaith priodol ar gyfer darparu'r cyllid hwnnw.

| | | |
|---|---|---|
| | Awgrymodd GE ei bod yn bryd i S4C symud y drafodaeth ymlaen a gweithio'n agosach gyda'r BBC ar faterion sy'n ymwneud â dyfodol ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Cydnabuwyd bod y drafodaeth eisoes yn symud yn gyflym yn y maes gwleidyddol, a bod ystod ehangach o opsiynau erbyn hyn yn cael eu hystyried. Pwysleisiwyd nad oes consensws bellach mai rhyw amrywiad o'r ffi drwydded yw'r unig ateb posibl, fel yr awgrymwyd yn y Papur Gwyrdd, a bod trafodaethau gwleidyddol ehangach yn digwydd ynghylch modelau amgen, gan gynnwys y posibilrwydd o ardoll aelwydydd a dulliau ariannu eraill ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwyo esblygu ein safiad cyhoeddus ar ddyfodol ffi'r drwydded, yn unol â'r drafodaeth.** | |
| 3. | [ymunodd GRh â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad gan Guto Rhun, Comisiynydd Cynulleidfaoedd Ifanc**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd GRh i'r cyfarfod a'i wahodd i gyflwyno trosolwg o strategaeth S4C ar gyfer y gynulleidfa iau. Yn ystod ei gyflwyniad, amlinellodd GRh y blaenoriaethau strategol ar gyfer Hansh, gan dynnu sylw at y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyrraedd, ymgysylltu ag a thyfu cynulleidfaoedd iau ar draws llwyfannau digidol. Nododd y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau S4C yn parhau i fod yn berthnasol, yn ddeniadol ac yn hygyrch i'r gynulleidfa hon. Fel rhan o'r cyflwyniad, dangoswyd enghraifft o gynnwys fideo fformat fertigol a oedd yn cael ei ffilmio yn ystod y Sioe Fawr ar gyfer TikTok, gan amlygu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys sy'n addas i arferion gwylio a defnydd cyfryngau cynulleidfaoedd iau.<br><br>Trafodwyd y trefniadau llywodraethu a'r canllawiau sydd ar waith mewn perthynas â chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd iau, yn enwedig mewn achosion lle gallai rhywfaint o'r cynnwys gael ei ystyried yn agos at y ffin o ran derbynioldeb i rai cynulleidfaoedd. Holwyd i ba raddau y mae penderfyniadau golygyddol yn gyfrifoldeb unigol, a sut y gallai'r Bwrdd amddiffyn y cynnwys pe bai'n destun beirniadaeth gyhoeddus. Nodwyd bod y canfyddiad o ble mae'r "llinell" yn gorwedd yn amrywio rhwng unigolion ac yn aml yn adlewyrchu safbwyntiau personol. Eglurwyd bod yr holl gynnwys yn destun prosesau golygyddol a chyfreithiol priodol ac yn cydymffurfio â rheolau a chodau Ofcom, gyda mewnbwn a goruchwyliaeth gan y tîm cyfreithiol lle bo angen. Nodwyd hefyd mai rhan o rôl GRh yw profi ffiniau creadigol yn gyfrifol ac archwilio'r hyn sy'n bosibl o fewn y fframwaith rheoleiddiol, er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol ac yn apelgar i gynulleidfaoedd ifanc.<br><br>Nodwyd y byddai'r Bwrdd yn croesawu mwy o drafodaeth a gweledegd ynghylch strategaeth Hansh a'i pherfformiad. Mynegwyd pryder nad oes digon o wybodaeth yn cael ei chyflwyno ar lefel y Bwrdd ynghylch y KPIs sy'n cael eu defnyddio i fesur llwyddiant y gwasanaeth. Eglurwyd bod ystod o KPIs eisoes mewn lle ar gyfer llwyfannau megis YouTube a TikTok, sy'n adlewyrchu'r cynulleidfaoedd targed a'r amcanion strategol ar gyfer Hansh. Nodwyd hefyd fod cynnwys Hansh yn cael ei gyhoeddi ar Facebook ac yn cyrraedd cynulleidfa sylweddol yno, ond gan nad yw defnyddwyr y llwyfan hwnnw yn cyd-fynd yn agos â'r gynulleidfa darged, nid yw'r perfformiad hwnnw'n cael ei gynnwys o fewn y prif KPIs a ddefnyddir i asesu llwyddiant y gwasanaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Holwyd a oedd GRh yn cynrychioli risg o ran bod yn unigolyn allweddol unigol o fewn y maes hwn. Mewn ymateb, nodwyd bod llwyddiant Hansh yn deillio o gyfraniad eang nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y newid cadarnhaol a welwyd yn y syniadau a dderbynnir gan gwmnïau cynhyrchu, gyda mwy o gynhyrchwyr ifanc yn dod i'r amlwg a chynnig syniadau ffres ac arloesol. Pwysleisiwyd bod y cynhyrchwyr hyn yn rhan bwysig o lwyddiant parhaus y gwasanaeth, ochr yn ochr â thîm cyfryngau cymdeithasol S4C, sydd â chyfrifoldeb allweddol dros ddatblygu a gwarchod y brand a sicrhau cysondeb o ran ei gyflwyniad a'i hunaniaeth. Cydnabuwyd, fodd bynnag, bod S4C yn sefydliad cymharol fach ac, o ganlyniad, bod rhywfaint o ddibyniaeth ar unigolion allweddol yn anorfod mewn rhai meysydd.<br><br>Nodwyd bod Hansh yn ceisio cynnig ystod eang o gynnwys ar draws nifer o genres, gan gydnabod na fydd unrhyw un math o gynnwys yn apelio at bawb o fewn y gynulleidfa darged. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnwys ffeithiol a chyfoes megis *Hansh Dim Sbin*, ochr yn ochr â chynnwys adloniant a chomedi. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod Newyddion S4C yn cyhoeddi cynnwys ar TikTok ac yn llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd iau drwy'r llwyfan hwnnw, er y nodwyd bod y gwaith hwnnw o fewn cyfrifoldeb comisiynydd arall.<br><br>Adroddwyd, yn sgil trafodaethau diweddar y Pwyllgor Cynnwys, fod angen sicrhau bod dulliau S4C o fesur perfformiad yn adlewyrchu arferion gwylio'r gwahanol gynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu. Cydnabuwyd bod llawer o'r mesurau perfformiad presennol yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar wylio llinol, ac felly nad ydynt bob amser yn darparu darlun cyflawn o ymgysylltiad cynulleidfaoedd digidol ac iau. Ychwanegodd GE fod angen edrych yn ehangach ar y ffordd y mae S4C yn dyrannu ei gyllideb gynnwys, gan bwysleisio bod y gynulleidfa a dargedir gan Hansh yn flaenoriaeth strategol allweddol i'r sefydliad, ac y dylai hynny gael ei adlewyrchu yn y ffordd y caiff llwyddiant ei fesur a'r adnoddau eu blaenoriaethu.<br><br>Holwyd pa welliannau y byddai GRh yn dymuno eu gweld er mwyn cryfhau perfformiad Hansh ymhellach. Mewn ymateb, nododd mai'r prif flaenoriaethau fyddai sicrhau bod cynnwys Hansh, a chynnwys digidol S4C yn ehangach ar gyfer cynulleidfaoedd iau, yn cael ei farchnata'n fwy effeithiol er mwyn cynyddu ei gyrhaeddiad a'i effaith. Cydnabuwyd pwysigrwydd hyrwyddo cynnwys mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cyrraedd y cynulleidfaoedd targed perthnasol ar draws y llwyfannau mwyaf addas. Nodwyd hefyd y bydd y Bwrdd yn cael trafodaeth benodol ar farchnata yn ystod yr hydref, a fydd yn gyfle i ystyried y materion hyn ymhellach.<br><br>Awgrymwyd bod angen sicrhau bod S4C yn ymgynghori'n rheolaidd â phobl ifanc ac yn cael eu mewnbwn wrth ddatblygu strategaethau a chynnwys sydd wedi'u hanelu at y gynulleidfa hon. Cytunwyd bod deall safbwyntiau a disgwyliadau pobl ifanc yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol. Holwyd hefyd a fyddai cyfle i gynnal gweithgarwch neu ymgysylltiad pwrpasol gyda phobl ifanc yn ystod yr Eisteddfod fel ffordd o gasglu safbwyntiau ac adborth yn uniongyrchol gan y gynulleidfa darged.<br><br>**Penderfyniad: Bod yr Uwch Dîm yn ystyried sut gall S4C sicrhau ein bod yn derbyn mewnbwn gan bobl ifanc ar yr arlwy sydd gennym ar eu cyfer.**<br><br>[gadawodd GRh y cyfarfod] | |
| 4. | **Setliad Cyflog 2026-27** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur ar y setliad cyflog ar ran NB.<br><br>Amlinellwyd y cynigion a'r argymhellion perthnasol. Nodwyd bod y mater wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Taliadau yn ei gyfarfod ar 01 Gorffennaf 2026, a bod y Pwyllgor wedi cytuno i argymell y cynnig gerbron y Bwrdd. Rhoddodd GLD drosolwg o'r drafodaeth a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Taliadau, gan amlinellu'r ffactorau a ystyriwyd wrth lunio'r argymhelliad a gyflwynwyd i'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y setliad cyflog.** | |
| 5. | **Ystadegau Pobl a Diwylliant**<br><br>Cyflwynodd GE yr adroddiad, gan amlinellu'r prif ddatblygiadau. Nodwyd bod prosesau recriwtio ar y gweill ar gyfer nifer o swyddi comisiynu allweddol, gyda hysbysebion wedi'u cyhoeddi ar gyfer y swyddi canlynol:<br>• Comisiynydd Chwaraeon (cyfweliadau i'w cynnal o fewn y pythefnos nesaf)<br>• Comisiynydd Drama<br>• Comisiynydd Ffilm (rhan-amser)<br>• Comisiynydd Cynnwys Digidol<br><br>Adroddwyd bod gwaith ar y gweill i ailffocysu gweithgarwch y tîm Marchnata er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y maes digidol. Fel rhan o'r datblygiad hwn, roedd penodiadau allweddol yn cael eu gwneud, gan gynnwys Pennaeth Marchnata ac Arweinydd Creadigol. Disgwylir i'r unigolion hyn ymuno â'r sefydliad dros y misoedd nesaf.<br><br>Nodwyd y dylid sicrhau bod dealltwriaeth gyson o reoli risg ar draws y sefydliad, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â risg a'r ffordd briodol o'i rheoli. Eglurwyd nad yw hyn o reidrwydd yn fater i'w gynnwys o fewn cwricwlwm hyfforddiant Campus, gan ei fod yn ymwneud yn fwy â chyfrifoldebau unigol a rheoli risg o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai'n fuddiol ystyried sesiynau gloywi i berchnogion risg er mwyn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau yn y broses rheoli risg.<br><br>Nodwyd bod y Tîm Pobl a Diwylliant estynedig, gyda chynrychiolaeth ar draws pob swyddfa, yn chwarae rôl bwysig wrth adnabod pryderon a materion posibl yn gynnar, cyn iddynt ddatblygu'n broblemau mwy sylweddol.<br><br>Trafodwyd y cynnydd a welwyd mewn dyddiau salwch yn ymwneud â straen yn ystod y flwyddyn bresennol, a nodwyd y byddai'n fuddiol cael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cyfrannu at y duedd hon. Tynnwyd sylw at y ffaith bod maint y gweithlu yn amrywio rhwng adrannau, gan olygu y gall cymariaethau uniongyrchol rhwng timau fod yn gamarweiniol. Awgrymwyd y byddai cyflwyno'r data yng nghyd-destun cyfanswm y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn gyffredinol yn cynnig gwell cyd-destun ac yn hwyluso dealltwriaeth fwy ystyrlon o'r ffigurau.<br><br>**Penderfyniad: Bod ystadegau salwch i'r dyfodol yn cynnwys nifer staff pob adran, er mwyn rhoi gwell cyd-destun i'r nifer o ddyddiau wedi eu colli fesul adran.** | |
| 6. | **Strwythur staffio ac anghenion sgiliau**<br><br>Cyflwynodd GE yr adroddiad a luniwyd gan NB, a oedd yn crynhoi'r prif themâu a nodwyd, gan amlygu'r meysydd oedd angen sylw a dod i gasgliad cyffredinol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Trafodwyd y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) o fewn S4C. Nodwyd bod rhai timau eisoes yn defnyddio AI ar gyfer tasgau penodol, megis cynorthwyo gyda dethol delweddau a metadata ar draws gwahanol lwyfannau, a bod mewnbwn arbenigol hefyd yn cael ei gomisiynu gan gwmnïau allanol, megis Crayfish.<br><br>Rhoddwyd diweddariad ar hyfforddiant AI i staff S4C, gyda staff bellach wedi dechrau derbyn hyfforddiant drwy BBC Academy. Nodwyd bod trafodaethau wedi bod ar waith gyda'r BBC ers dros flwyddyn er mwyn sicrhau mynediad at yr hyfforddiant safonol hwn. Cadarnhawyd hefyd fod canllawiau mewnol ar waith o fewn S4C ynghylch y defnydd o AI, ynghyd â chanllawiau i'r sector cynhyrchu sy'n nodi'r disgwyliadau o ran defnyddio AI wrth greu cynnwys a gomisiynir ar gyfer S4C.<br><br>Trafodwyd yr her a achosir gan ddibyniaeth ar unigolion allweddol mewn rhai meysydd gwaith (single points of failure), gan nodi bod hyn yn risg barhaus o ystyried maint cymharol fach S4C a'r modd y mae'r sefydliad yn gweithredu'n effeithlon ac yn denau ei strwythur. Nodwyd bod pwysau gwaith yn thema sy'n codi'n gyson mewn arolygon pwls staff. Er bod timau'n parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau craidd, amlygwyd bod y gofyniad cynyddol i ddarparu cynnwys ar gyfer llwyfannau newydd yn ychwanegu at y llwyth gwaith ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau presennol.<br><br>Trafodwyd bwriad yr UDA i gynnal adolygiad o adrannau unigol er mwyn deall anghenion pob adran yn well, gan nodi unrhyw fylchau mewn capasiti neu sgiliau a nodi cyfleoedd ar gyfer ailsgilio staff, lle bo hynny'n briodol. Pwysleisiwyd mai'r nod yw cryfhau gallu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion heb gynyddu nifer y staff yn ddiangen. Nodwyd bod y gwaith hwn yn cyd-fynd ag adolygiad ehangach sy'n cael ei gynnal gan yr EBU.<br><br>Nodwyd hefyd, wrth weithredu unrhyw newidiadau yn dilyn y broses adolygu, y bydd angen sicrhau bod y ffyrdd newydd o weithio yn cael eu gwreiddio'n effeithiol ac nad yw arferion blaenorol yn ailsefydlu eu hunain dros amser. Cydnabuwyd bod y gwaith hwn yn heriol ac y bydd angen rhoi sylw penodol i sicrhau bod gan y sefydliad y bobl iawn yn y rolau cywir er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod staff yn cael eu cynnwys a'u cefnogi drwy'r broses er mwyn dod â phobl gyda'r sefydliad ar y daith newid.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at ailstrwythuro diweddar yn Channel 4, gyda GE yn awyddus i ddeall yr ystyriaethau a'r canlyniadau y tu ôl i'r newidiadau hynny, a'r gwersi posibl i S4C. Pwysleisiwyd nad ailstrwythuro er mwyn ailstrwythuro yw'r bwriad, ond yn hytrach sicrhau bod gan y sefydliad y gallu a'r sgiliau perthnasol i gyflawni'r strategaeth. Cydnabuwyd hefyd yr heriau presennol o ran adnoddau a chyllid, ond nodwyd bod y sefydliad yn parhau i weithio i gyflawni cymaint â phosibl o fewn y cyfyngiadau hynny.<br><br>Trafodwyd pwysigrwydd ymateb i anghenion datblygu sgiliau'r Bwrdd yn ogystal â rhai'r sefydliad yn ehangach. Anogwyd aelodau i roi gwybod i GP am unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu y maent yn eu hadnabod.<br><br>**Penderfyniad: Bod y Bwrdd yn derbyn diweddariad ar adolygiad yr EBU, a'r gwaith mewnol i adolygu sgiliau, yn ystod ei gyfarfod ar 22 Hydref 2026.**<br><br>[gadawodd WI a CR y cyfarfod] | |

| | | |
|---|---|---|
| | [ymunodd SL a LlM â'r cyfarfod] | |
| 7. | **Cyflwyniad gan yr Urdd ar eu gweledigaeth ar gyfer yr Eisteddfod i'r dyfodol**<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd SL a LlM o'r Urdd i'r cyfarfod. Datganwyd buddiannau perthnasol, gyda DE yn nodi ei bod yn ymddiriedolwr o'r Urdd, gyda'i thymor yn dod i ben yn yr Hydref; a DD yn aelod o un o bwyllgorau'r Urdd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi o ganlyniad i'r buddiannau hyn.<br><br>Mynegodd SL fod y bartneriaeth rhwng yr Urdd ac S4C yn un bwysig iawn, gan nodi bod cysylltiad gweithredol cryf a sgyrsiau rheolaidd rhwng y ddau sefydliad eisoes yn bodoli. Croesawyd y cyfle i gyflwyno i'r Bwrdd a thrafod y berthynas ar lefel fwy strategol.<br><br>Esboniodd SL fod ymestyn yr Eisteddfod o chwech i saith diwrnod yn gyfle i adlewyrchu'n well ehangder gwaith yr Urdd a'r ystod eang o oedrannau y mae'n ymgysylltu â hwy. Nodwyd bod y newid i strwythur yr wythnos yn rhoi mwy o bwyslais ar bobl ifanc ar ddechrau'r ŵyl, cyn troi'r ffocws at weithgareddau a chystadlaethau'r plant yn ddiweddarach yn yr wythnos.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniad ar waith a blaenoriaethau strategol yr Urdd, gan gynnwys:<br>• Amcanion strategol yr Urdd.<br>• Proffil cynulleidfa Eisteddfod yr Urdd, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r digwyddiad yn bersonol a'r rheini sy'n ymgysylltu â chynnwys S4C.<br>• Cyfleoedd i'r Urdd ac S4C gydweithio i ehangu cyrhaeddiad ac apêl eu cynulleidfaoedd.<br>• Gweledigaeth bosibl ar y cyd ar gyfer y dyfodol, gyda'r Urdd yn awyddus i ddatblygu'r gwaith hwn mewn partneriaeth â S4C, gyda golwg ar gyflawni uchelgeisiau penodol erbyn Eisteddfod 2029, gan gynnwys:<br>o Arddangos ystod ac amrywiaeth lawn gweithgareddau'r maes ar ei orau.<br>o Cefnogi a datblygu pobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd, gan gynnwys adnabod a meithrin talent cyflwyno'r dyfodol.<br>o Ehangu apêl a chyrhaeddiad Gŵyl Triban.<br><br>Trafodwyd effaith y newid i strwythur Eisteddfod yr Urdd eleni, gan nodi bod y model newydd wedi cyflwyno rhywfaint o risg i S4C i ddechrau, ond ei fod wedi profi'n llwyddiannus yn y pen draw. Esboniwyd mai arbrawf ar ran yr Urdd oedd y newid, a mynegwyd gwerthfawrogiad o barodrwydd S4C i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau ei lwyddiant. Cadarnhawyd bod bwriad i barhau â'r model saith diwrnod yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni'r adborth cadarnhaol a gasglwyd yn dilyn gŵyl eleni. Nodwyd hefyd fod nifer o wersi wedi dod i'r amlwg o'r profiad, gan gynnwys ystyriaethau ynghylch amserlennu a phryd y dylai gwahanol elfennau o'r rhaglen a'r gweithgareddau ddigwydd yn ystod yr wythnos.<br><br>Roedd gan aelodau'r Bwrdd ddiddordeb yn y modd y mae'r Urdd yn sicrhau ei bod yn clywed ac yn adlewyrchu barn pobl ifanc yn ei gwaith. Esboniwyd fod Fforymau Ieuenctid yn gweithredu ym mhob sir, gan ddarparu cyfrwng i bobl ifanc gyfrannu at weithgareddau a blaenoriaethau lleol, a bod y fforymau hyn yn weithredol iawn. Nodwyd hefyd fod fforwm penodol yn bodoli mewn perthynas ag arlwy chwaraeon yr Urdd. Cyfeiriwyd at nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol sy'n rhoi llwyfan i leisiau pobl ifanc, gan gynnwys hustings i bobl ifanc cyn Etholiadau Cymru, a gafodd eu ffilmio ar gyfer *Pawb a'i Farn*. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bu trafodaeth ynghylch y potensial i S4C gydweithio â'r Urdd er mwyn cael mewnbwn ac adborth gan bobl ifanc. Nododd cynrychiolwyr yr Urdd y byddent yn croesawu cyfleoedd i gydweithio â S4C, ond eglurwyd nad rôl yr Urdd yw gweithredu fel corff cynrychioliadol ar ran sefydliadau eraill nac ymgymryd â gwaith ymgynghori ar eu rhan, gan nad oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod yr Urdd yn cynnal ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn, y tu hwnt i'r Eisteddfod, a nodwyd y byddai croeso i S4C gael presenoldeb a chyfleoedd ymgysylltu yn y digwyddiadau hynny.<br><br>Nodwyd mai un Comisiynydd sydd â'r prif gyfrifoldeb am gynnwys yr Urdd o fewn S4C ar hyn o bryd, a thrafodwyd a oes cyfleoedd i gryfhau'r gwaith hwn ymhellach drwy ehangu'r cyfrifoldeb a'r mewnbwn ar draws y sefydliad. Cadarnhawyd y bydd y Comisiynydd Cynnwys Digidol newydd yn ymwneud ag elfennau o gynnwys yr Urdd o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mynegodd cynrychiolwyr yr Urdd farn y dylid ystyried ehangu cwmpas cynnwys S4C o Eisteddfod yr Urdd y tu hwnt i gynnwys plant yn unig, gan roi mwy o sylw i'r elfennau adloniant, yr arlwy ehangach ar y maes, y gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at oedolion, a'r effaith a'r buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.<br><br>Trafodwyd hefyd y cydweithio parhaus rhwng S4C a'r Urdd mewn perthynas â materion diogelu plant. Cydnabuwyd nad yw bob amser yn briodol nac yn bosibl darlledu pob cystadleuydd, a phwysleisiwyd yr angen i gydbwyso cyfleoedd darlledu ag ystyriaethau diogelu. Nodwyd ymhellach fod ymwybyddiaeth gynyddol o'r risgiau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi clipiau o blant ar-lein, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial (AI), a bod hyn yn ffactor pwysig wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys.<br><br>Diolchwyd i gynrychiolwyr yr Urdd am eu cyflwyniad a'u cyfraniad i'r drafodaeth. Nodwyd y bydd trafodaethau a chydweithio rhwng yr Urdd ac S4C yn parhau ar lefel weithredol.<br><br>[gadawodd SL a LlM y cyfarfod] | |
| 8. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (24/06/2026)<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (26/06/2026)<br>• Y Pwyllgor Taliadau (01/07/2026)<br>• Y Pwyllgor Achosion<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>Nodwyd bod tymor cychwynnol Axiom i fod i ddod i ben ym mis Ionawr 2027. Adroddwyd bod adolygiad allanol wedi'i gynnal, a'i fod wedi dod i'r casgliad y dylid estyn penodiad Axiom am gyfnod pellach o flwyddyn. Nodwyd hefyd fod yr adolygiad wedi gwneud nifer o argymhellion ychwanegol, a fydd yn cael eu hystyried ymhellach gan y sefydliad. | |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br>Trafodwyd y prif wersi a ddysgwyd yn sgil profiad *Effie*. Nodwyd nad yw S4C wedi cefnogi cynyrchiadau ffilm ers nifer o flynyddoedd, ac felly bod y prosiect wedi darparu mewnwelediadau gwerthfawr ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Yn benodol, pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu a gweithredu cynllun marchnata o ddechrau'r broses er mwyn sicrhau bod yr holl weithgarwch hyrwyddo yn ei le cyn digwyddiadau allweddol, megis gwyliau ffilm. Nodwyd bod y dull hwn eisoes wedi'i ymgorffori yn y trefniadau ar gyfer *Lluest*.<br><br>Trafodwyd yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd, ac awgrymwyd y dylid ystyried trefnu digwyddiad penodol ar gyfer "Tîm Cymru" fel rhan o'r rhaglen. Nodwyd y gallai hyn gyfrannu at feithrin ymdeimlad cryfach o gydweithio a chydlyniant ymysg y cynrychiolwyr, gan atgyfnerthu'r teimlad eu bod yn mynychu'r ŵyl gyda'i gilydd fel llysgenhadon dros Gymru a'i diwydiannau creadigol.<br><br><u>Gweithredu'r Safonau Iaith yn ystod 2025–26</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr adroddiad i'w gyhoeddi.**<br><br><u>Adroddiad blynyddol ar drefniadau Iechyd a Diogelwch S4C</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br>Holwyd a oedd unrhyw ganllawiau iechyd a diogelwch penodol ar waith ar gyfer gweithio o adref. Eglurwyd mai un o swyddfeydd S4C yw lleoliad gwaith cytundebol pob aelod o staff, ac felly nad oes angen i'r sefydliad ddarparu canllawiau ffurfiol ar gyfer gweithio o adref. Nodwyd hefyd nad yw S4C yn gyfrifol am drefniadau na gosodiadau gweithio yng nghartrefi unigolion.<br><br><u>Diddymu'r Pwyllgor Achosion</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr argymhelliad i ddiddymu'r Pwyllgor Achosion.**<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 485, a gynhaliwyd ar 26/06/2026.<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u><br><br>Nodwyd y Pwyntiau Gweithredu.<br><br><u>Rhaglen Waith</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd y rhaglen waith. | |
| 10. | **Unrhyw fater arall**<br><br>Anogwyd Aelodau'r Bwrdd i fynychu'r digwyddiadau corfforaethol yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol, a rhannwyd yr amserlen gyda hwy.<br><br>Hysbyswyd yr Aelodau y byddai S4C yn cyhoeddi cyfres o dendrau dros gyfnod yr haf, gan gynnwys nifer o gynyrchiadau nad ydynt wedi bod drwy broses dendro ers nifer o flynyddoedd, megis Dechrau Canu, Dechrau Canmol, Pawb a'i Farn a'r Sioe Fawr. Nodwyd bod cyfanswm gwerth y comisiynau dan sylw oddeutu £1.5 miliwn. Esboniwyd mai nod y broses yw cryfhau'r cynnig golygyddol a sicrhau gwell gwerth am arian. Cadarnhawyd y bydd y tendrau'n cael eu cyhoeddi yn dilyn y Sioe Frenhinol, a nodwyd bod y cwmnïau y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt eisoes wedi cael gwybod am y bwriad.<br><br>Nodwyd y bwriad i wahodd Michael Plaut i ymuno ag Aelodau'r Bwrdd am ginio yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr yng Nghaerdydd.<br><br>Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf SuD cyn diwedd ei thymor yn ei swydd ar 31 Gorffennaf 2026. Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyfraniad sylweddol dros gyfnod ei gwasanaeth, gan nodi y byddai'n golled fawr i'r sefydliad ac yn mynegi siom na fu modd ymestyn ei thymor. Wrth ymateb, diolchodd SuD i'r Cadeirydd, yr Aelodau, yr Ysgrifennydd a'r Uwch Dîm am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad. Nododd fod y sefydliad wedi llwyddo i ddod drwy gyfnod heriol yn llwyddiannus, a mynegodd ei hyder yn ei ddyfodol. | |